**Prifysgol Metropolitan Caerdydd**

**Datganiad Blynyddol ar Uniondeb Ymchwil: 2017/18**

## 1. Cyflwyniad a Chefndir

1.1 Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd wedi ymrwymo'n llwyr i gefnogi'r lefelau uchaf o uniondeb ymchwil a llywodraethu yn ei holl weithgarwch ymchwil. Fel derbynnydd cyllid cyhoeddus, mae Met Caerdydd yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod ei staff a'i myfyrwyr yn cynnal safonau rhagorol o arfer academaidd, uniondeb a gonestrwydd ym mhob agwedd ar ymchwil.

1.2 Barnwyd bod 80% o'r gweithgaredd ymchwil a gyflwynwyd i REF2014 gan Met Caerdydd o leiaf yn rhagorol yn rhyngwladol (dyfarnwyd bod 97% yn cael ei gydnabod yn rhyngwladol o leiaf). Er mwyn cynnal ac ehangu llwyddiant ymchwil y Brifysgol, mae cynnal ymrwymiad i'r safonau uchaf o ymddygiad proffesiynol yn ein hymchwil yn hollbwysig.

1.3 Fel llofnodwr i'r Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil, mae Met Caerdydd wedi ymrwymo i gefnogi a chynnal yr ymrwymiadau sydd ynddo. Er mwyn gwella atebolrwydd a rhoi sicrwydd bod mesurau'n cael eu cymryd i gefnogi safonau uchel o uniondeb ymchwil, mae'r Concordat yn argymell bod cyflogwyr ymchwilwyr yn cyflwyno datganiad blynyddol byr i'w corff llywodraethu eu hunain sydd yn:

- Darparu crynodeb o gamau gweithredu a gweithgareddau a gyflawnwyd i gefnogi a chryfhau dealltwriaeth a chymhwysiad o faterion uniondeb ymchwil.
- Rhoi sicrwydd bod y prosesau sydd ganddynt ar gyfer ymdrin â honiadau o gamymddwyn yn dryloyw, cadarn, teg, a'u bod yn parhau i fod yn briodol i anghenion y sefydliad.
- Darparu datganiad lefel uchel ar unrhyw ymchwiliadau ffurfiol i gamymddwyn yn ymwneud ag ymchwil a gynhaliwyd.

1.4 Mae'r Datganiad Blynyddol hwn ar Uniondeb Ymchwil yn ymwneud â blwyddyn academaidd 2017/18. Fel yr argymhellir gan y Concordat, bydd y datganiad hwn ar gael yn gyhoeddus ar wefan y Brifysgol.

## 2. Crynodeb o gamau gweithredu a gweithgareddau a gyflawnwyd i gefnogi a chryfhau dealltwriaeth a chymhwysiad o faterion uniondeb ymchwil

2.1 Sicrheir cefnogaeth ac anogaeth ar gyfer cywirdeb ymchwil trwy nifer o brosesau ansawdd, polisïau a dogfennau canllaw sylfaenol sydd ar gael yn eang o fewn a thu allan i'r Brifysgol.

2.2 Mae Cyfarwyddwr Ymchwil y Brifysgol yn gyfrifol am arwain materion sy'n ymwneud ag uniondeb ymchwil, gan gynnwys yr agenda moeseg. Cefnogir y Cyfarwyddwr Ymchwil gan y Rheolwr REF a Pholisi sy'n aelod o'r Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesi.

2.3 Mae Fframwaith Uniondeb Ymchwil a Llywodraethu y Brifysgol (y Fframwaith Llywodraethu Ymchwil gynt) wedi bod ar waith ers 2009. Fe'i hadolygwyd yn fwyaf diweddar yn 2017/18, a chymeradwywyd y fersiwn wedi'i diweddaru gan y Bwrdd

Ymchwil ac Arloesi[1] ym mis Rhagfyr 2017. Mae'r Fframwaith ar gael i'r cyhoedd trwy wefan[2] y Brifysgol.

2.4 The Framework sets out the principles by which all Cardiff Met staff and students should abide when undertaking research. It makes clear that all staff and students should maintain exemplary standards of academic practice in all aspects of research by reading, understanding and incorporating the principles and practices set out in the Framework to their everyday work.

2.4 Mae'r Fframwaith yn nodi'r egwyddorion y dylai holl staff a myfyrwyr Met Caerdydd eu dilyn wrth wneud ymchwil. Mae'n ei gwneud yn glir y dylai'r holl staff a myfyrwyr gynnal safonau rhagorol o arfer academaidd ym mhob agwedd ar ymchwil trwy ddarllen, deall ac ymgorffori'r egwyddorion a'r arferion a nodir yn y Fframwaith yn eu gwaith bob dydd.

2.5 Mae'r Fframwaith yn berthnasol i'r holl staff a myfyrwyr ac mae hefyd yn berthnasol i bobl nad ydynt yn cael eu cyflogi gan y Brifysgol ond sydd â chaniatâd i wneud ymchwil ym Met Caerdydd. Mae'n cyfeirio ymchwilwyr at bolisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill y Brifysgol gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â chymeradwyo moeseg, Rheoli Data Ymchwil, cyhoeddi ymchwil, mynediad agored a chamymddwyn yn ymwneud ag ymchwil.

2.6 Mae'r Fframwaith yn destun adolygiad bob dwy flynedd a bydd yn cael ei adolygu'n ffurfiol nesaf yn 2019/20. Cynhelir adolygiad cynharach os daw'n amlwg bod angen hyn er mwyn i'r Fframwaith barhau i fod yn addas at y diben.

2.7 Bwriad Fframwaith Moeseg y Brifysgol (a gyflwynwyd gyntaf ym mis Mehefin 2009) yw darparu pwynt cyfeirio i'r holl randdeiliaid ar weithrediad gwerthoedd y Brifysgol. Adolygwyd y Fframwaith yn 2016/17 i'w alinio'n well â'r modd y mynegir set newydd o werthoedd yng Nghynllun Strategol y Brifysgol 2017/18 - 2022/23. Fe'i cymeradwywyd gan Bwyllgor Moeseg y Brifysgol ym mis Chwefror 2018 ac fe'i cymeradwywyd gan y Bwrdd Academaidd ym mis Ebrill 2018 ac mae ar gael yn gyhoeddus ar wefan y Brifysgol.[3]

2.8 Mae gan y Brifysgol weithdrefnau cadarn ar waith i sicrhau bod pob ymchwil yn destun adolygiad moesegol a chymeradwyaeth. Wrth ymgymryd â phrosiect ymchwil, mae'n ofynnol i staff a myfyrwyr gwblhau Rhan Un o'r Ffurflen Gais am Gymeradwyaeth Moeseg[4]. Bydd hyn yn penderfynu a oes angen cais llawn am gymeradwyaeth moeseg. Mae angen i bob prosiect sy'n cynnwys cyfranogwyr dynol gwblhau cais llawn a bydd Pwyllgor Moeseg yr Ysgol yn craffu'r cais. Mae pob Ysgol wedi datblygu Fframwaith Moeseg Ysgol sy'n nodi'r prosesau ar gyfer gweithredu cymeradwyaeth foeseg yn yr Ysgol.

2.9 Mae'r cyfrifoldeb cyffredinol am y broses moeseg ymchwil yn nwylo Pwyllgor Moeseg y Brifysgol sy'n goruchwylio gwaith pwyllgorau'r Ysgol ac yn sicrhau bod gweithdrefnau moeseg yn parhau i fod yn addas at y diben. Mae UEC yn adolygu'r

---

[1] Yn cael ei adnabod fel y Bwrdd Ymchwil a Menter tan fis Rhagfyr 2018

[2] http://www.cardiffmet.ac.uk/research/Documents/Ethics/Research_Integrity_Governance_Framework_v5_Dec2017.pdf

[3] http://www.cardiffmet.ac.uk/research/Documents/Ethics/Ethics_Framework_Feb2018_final.pdf

[4] http://www.cardiffmet.ac.uk/research/Pages/Ethics-Governance.aspx

Ffurflen Gais am Gymeradwyaeth Moeseg a'r nodiadau canllaw cysylltiedig yn flynyddol gyda diwygiadau'n cael eu cyflwyno ar ddechrau pob blwyddyn academaidd. Yn 2017/18, nid oedd angen unrhyw ddiwygiadau.

2.10 Mae polisïau a gweithdrefnau penodol yn eu lle mewn perthynas â gofynion y Ddeddf Meinweoedd Dynol. Mae gweithgareddau sy'n ymwneud â'r Ddeddf Meinweoedd Dynol yn cael eu goruchwylio gan Unigolyn Dynodedig penodol sy'n aelod o Bwyllgor Moeseg y Brifysgol ac yn darparu adroddiadau rheolaidd i'r pwyllgor. Mae manylion cyswllt yr Unigolyn Dynodedig ar gael ar wefan y Brifysgol.

2.11 Cynhaliodd y Ddeddf Meinweoedd Dynol arolygiad llwyddiannus o weithdrefnau, adeiladau, cyfleusterau ac offer Met Caerdydd ym mis Ebrill 2018. Roedd adroddiad terfynol yr arolygiad yn cyfeirio at nifer o arferion da a chryfderau yn y Brifysgol, gan gynnwys yr arfer o ddal yr holl samplau dynol o dan yr un trefniadau llywodraethu, p'un a ydynt yn cael eu dal dan drwydded Deddf Meinweoedd Dynol neu Bwyllgor Moeseg Ymchwil cydnabyddedig, defnydd o Flychau Prosiect i gynnal manylion allweddol yn ymwneud â phob astudiaeth, cyfres gynhwysfawr o asesiadau risg yn erbyn pob gweithgaredd trwyddedadwy a thrylwyredd prosesau hyfforddi.

2.12 Mae hyfforddiant moeseg ymchwil arferol wedi'i ddatganoli i Ysgolion a Chanolfan Ryngwladol ar gyfer Dylunio ac Ymchwil (PDR) i sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r gweithrediad llywodraethu lleol. Gweithgareddau hyfforddi eraill yn ymwneud â moeseg ac uniondeb ymchwil a gynhaliwyd yn 2017/18, dan arweiniad Pwyllgor Moeseg y Brifysgol oedd:

- Hyfforddiant Moeseg Horizon 2020 (Medi 2017)
- Hyfforddiant Moeseg Ymchwil Doethuriaeth Broffesiynol (Tachwedd 2017)
- Datblygiad staff ar y polisi ar waith yn ymwneud ag anifeiliaid neu feinwe anifeiliaid (Rhagfyr 2017)
- Seminar cydsyniad gwybodus gydag Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd – treial o ddull newydd o rannu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth (Chwefror 2018)

## 3. Sicrwydd bod y prosesau sydd yn eu lle ar gyfer ymdrin â honiadau o gamymddwyn yn dryloyw, cadarn a theg, a'u bod yn parhau i fod yn briodol i anghenion y sefydliad.

3.1 Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn cymryd unrhyw honiad o gamymddwyn yn ymwneud ag ymchwil o ddifrif ac mae wedi datblygu'r Polisi ar Gamymddwyn yn ymwneud ag Ymchwil i ymdrin â honiadau o'r fath.

3.2 Mae'r polisi'n cymeradwyo'r diffiniad o gamymddwyn yn ymwneud ag ymchwil a ddarparwyd gan UK Research & Innovation (UKRI) ac yn manylu ar broses ymchwilio dau gam i'w chynnal pan wneir honiad o gamymddwyn yn ymwneud ag ymchwil.

CAM 1: Gwneir honiadau o gamymddwyn yn ymwneud ag ymchwil yn ysgrifenedig i'r Cyfarwyddwr Ymchwil a fydd yn cynnal ymchwiliad cychwynnol i sefydlu a oes achos *prima facie* o gamymddwyn yn bodoli. Lle nad yw'n briodol i'r Cyfarwyddwr Ymchwil gynnal yr ymchwiliad, y Dirprwy Gyfarwyddwr Ymchwil fydd yn gwneud hyn.

CAM 2: Lle tybir bod achos *prima facie* yn bodoli, bydd yr achos yn cael ei gyfeirio at y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil ac Arloesi) a all gymryd camau ar unwaith neu a all gychwyn ymchwiliad pellach i'r honiad. Os bydd angen ymchwiliadau pellach, byddant yn cael eu cynnal naill ai gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil ac Arloesi) neu gan unigolyn priodol a benodir gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil ac Arloesi).

3.3 Mae'r polisi'n nodi y bydd Met Caerdydd yn ymchwilio i honiadau'n llawn ac yn gyflym ac mae'n argymell bod pob achos o gamymddwyn honedig yn ymwneud ag ymchwil yn cael ei ymchwilio o fewn ffrâm amser o 12 wythnos waith. Mae amserlen ddangosol ar gyfer y broses ymchwilio wedi'i hatodi i'r polisi.

3.4 Caiff y polisi ei ddosbarthu i Ysgolion a'r Ganolfan Ryngwladol ar gyfer Dylunio ac Ymchwil drwy aelodau'r Bwrdd Ymchwil ac Arloesi, a thrwy'r fforwm hwn y caiff y polisi ei adolygu a'i gymeradwyo. Mae'r polisi hefyd ar gael yn gyhoeddus ar wefan y Brifysgol[5].

3.5 Mae'r polisi wedi bod ar waith ers 2007 ac fe'i hadolygwyd yn fwyaf diweddar (a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi) ym mis Medi 2016. Cafodd y broses ddatblygu a'r broses adolygu eu llywio gan feincnodi yn erbyn normau'r sector. Roedd adolygiad 2016 hefyd yn ystyried profiad o weinyddu'r broses wreiddiol ac ymwneud â phrosesau tebyg eraill sydd ar waith yn y Brifysgol. Bydd y polisi'n cael ei adolygu nesaf yn gynnar yn 2018/19 er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r diben, yn parhau i gydymffurfio ag arfer gorau ac yn gadarn ac yn deg.

## 4. Datganiad ar unrhyw ymchwiliadau ffurfiol i gamymddwyn yn ymwneud ag ymchwil sydd wedi'u cynnal

4.1 Ni dderbyniwyd unrhyw honiadau o dan Weithdrefn Camymddwyn yn ymwneud ag Ymchwil y Brifysgol yn ystod 2017/18.

## 5. Argymhelliad

5.1 Argymhellir bod y Bwrdd Llywodraethwyr yn nodi'r adroddiad hwn a dderbyniwyd ac a nodwyd yn y Bwrdd Ymchwil ac Arloesi ar 26 Mehefin 2018.

[5] http://www.cardiffmet.ac.uk/research/Documents/Research_misconduct_policy_2016.pdf